

Bwletin Awdurdod S4C - Gorffennaf 2002

CYFARFOD AGORED – Y Barri

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 27 Mehefin 2002 yn y Barri lle bu rhyw 15 o bobl yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Cefin Campbell, Aelod o Awdurdod S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd Aelodau eraill yr Awdurdod hefyd yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

Rhaglenni Drama

Teimlwyd bod *Talcen Caled*, *Pen Tennyn* a *Tipyn o Stad* yn rhy debyg i'w gilydd a'r un actorion ynddyn nhw. Roedd hyn braidd yn ddryslyd. Cytunodd nifer o aelodau'r gynulleidfa â hyn. Yn ogystal, parthed *Pen Tennyn* yn benodol gwnaethpwyd sylwad bod yna lawer gormod o ffyrnigrwydd, rhyw, a chasineb ynddi – 'doedd braidd neb yn hapus yna, gyda thor-priodas a chymaint o greulondeb. Tra'n beirniadu'r stori roedd angen canmol yr actorion a'r cynhyrchu yn fawr iawn. Ychwanegwyd at hyn trwy leisio dymuniad i gael cyfres debyg i Forsythe Saga Cymraeg i fod yn wahanol iddyn nhw.

Ymatebodd Huw Eirug drwy dderbyn y feirniadaeth ynglyn â thebygrwydd y tair cyfres uchod. Wrth edrych yn ôl a chael amser yn ôl eto, fe fyddai wedi'u darlledu mewn trefn wahanol. O safbwynt cyfresi clasurol ar S4C, soniwyd bod ffilmio wedi dechrau ar addasiadau o nofelau Daniel Owen, Rhys Lewis a Enoc Lewis. Fe fyddai gyfres y *Dreflan* yn cael ei darlledu tua diwedd y flwyddyn, a'r gobaith oedd y byddai gan S4C tair cyfres i gyd dros dair blynedd.

Ffigurau Gwyllo

Holwyd ynglyn â sefyllfa gyhoeddi ffigurau gwyllo yn y Cymro bob wythnos. Roedd yna si nad oedd *Pobol y Cwm* mor boblogaidd ag a fu, ond nid oedd yna ffigurau i'w cael yn y Cymro nac yn unman arall bellach. Nid oedd yna ychwaith beirniadaeth a thrafodaeth o raglenni yn Golwg na phapurau tebyg.

Atebodd Huw Jones trwy ddweud ei fod hi'n wir y bu S4C yn cyhoeddi ffigurau yn y Cymro. Roedd y ffigurau gwyllo yn seiliedig ar sampl o 450 o gartrefi. Roedd hwn i fod i gynrychioli pawb yng Nghymru. Newidiwyd y sampl drwy Brydain yn llwyr ddiwedd flwyddyn ddiwethaf oedd yn golygu bod y cartrefi nawr yn rhai cwbl newydd. Roedd y ffigurau oedd wedi bod yn dod allan o'r sampl newydd wedi bod yn anwadal iawn ac yn anodd iawn eu credu. Roedd y ffigurau presennol yn gofyn i S4C gredu fod gwyllo yng ngorllewin Cymru wedi haneru dros nos o ddiwedd Rhagfyr i ddechrau Ionawr. 'Doedd hynny ddim yn bosibl beth bynnag oedd wedi digwydd mewn gwirionedd. Roedd S4C wrthi mewn trafodaethau cyson gyda'r bobl sydd yn gyfrifol am fesur patrymau gwyllo a'r gobaith oedd y byddai gan S4C erbyn mis Medi ffigurau roedd yn credu ynddyn nhw, a lle byddai'n bosibl yna i ddechrau eu cyhoeddi unwaith eto.

Pobol y Cwm

Codwyd i fyny ar ffaeiddau *Pobol y Cwm* yn ddiweddar. Cyfeiriwyd at y ffaith fod hwn yn bwnc oedd yn cael ei drafod ymhob un cyfarfod cyhoeddus, yn naturiol ddigon, gan i'r rhaglen ymddangos pum gwaith yr wythnos (gyda'r omnibws ar ddydd Sul). Roedd S4C wedi bod ac mewn trafodaethau cyson gyda BBC oedd yn cynhyrchu *Pobol y Cwm* ar gyfer ei ddarlledu ar S4C. Roedd yna nawr ymgyrch o dan adain cynhyrchydd newydd i geisio ei chryfhau. Oherwydd natur cynhyrchu sebon opera fel *Pobol y Cwm* byddai'n cymryd sbel i weld y dylanwad hynny ar y sgrîn. Roedd yn annhebygol y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gweld cyn mis Medi, ond yn y cyfamser roedd S4C yn rhannu'r awydd i weld *Pobol y Cwm* yn ail sefydlu'i hunan fel un o ddramâu mwyaf poblogaidd S4C.

Wrth drafod yr hyn credodd y gynulleidfa oedd yn mynd o le gyda *Pobol y Cwm*, mynegwyd y farn bod y syniadau yn y storïau ar hyn o bryd yn rhy drist a ddim digon o hiwmor. Yn y blynyddoedd cynnar roedd na lot o hiwmor yn *Pobol y Cwm*, erbyn hyn teimlwyd bod pawb yn ffraeo a chwympo mas trwy'r amser. Roedd yna llawer o anfoesoldeb hefyd, yn arbennig o ystyried pa mor gynnar yn y nos da roedd yn cael ei darlledu gan ddisgwyll bod teuluoedd neu blant yn gwylio. Ni chredwyd fod y sebon opera ar y cyfan yn bortread go iawn o fywyd yng Nghymru. Roedd yn wir fod pethau erchyll yn digwydd ond ddim bob dydd ond dyna'r argraff roedd *Pobol y Cwm* yn ei roi.

Soniodd aelod arall o'r gynulleidfa ei bod yn un oedd yn gweithio gyda 400 o blant 3-11, a rhieni oedd yn dysgu Cymraeg. Yn y gorffennol, bu yn eu hannog nhw bron yn ddyddiol i gael eu plant i eistedd i lawr i edrych ar raglenni fel *Pobol y Cwm*. Hefyd arferid trafod y sebon opera gyda'r plant, yn enwedig disgyblion blwyddyn 5 a 6 a gofyn iddynt edrych arno fel rhan o waith cartref. Nid oedd yn barod i wneud hynny nawr. Roedd yna bethau yn digwydd na allai awgrymu bod plant yn edrych arnyn nhw adeg yna o'r nos. Wrth gwrs roedd y plant yn byw mewn byd lle'r oedd y pethau yma i gyd yn digwydd, ond ni chredodd y byddai'n gyfrifol i annog nhw i edrych arnynt – roedd hynny i fater i'w rhieni.

Rhaglenni Plant

Llongyfarchwyd S4C ar ei rhaglenni plant. Roedd yna raglenni ardderchog i'w cael - y rhai animeiddio yn enwedig i'r plant bach. Er hynny, roedd yna wacter mawr lle gallai athrawes ddweud 'cerwch gartref, steddwch i lawr gyda'ch plentyn a gwyliwch y rhaglenni yma'. Er enghraifft, roedd i *Hapus Dyrfa* hiwmor a roedd yna stori lle gallai'r plant eistedd i lawr a ddim dod ar draws budredd. Roedd cymaint o blant yn dod o gefndiroedd anffodus ac o gartrefi trist iawn diwrnodau yma a roedent yn byw gyda rhai o'r sefyllfaoedd hyn – nid oeddynt am fynd i eistedd lawr ac edrych arnyn nhw hefyd. Gwnaethpwyd apêl felly am gael mwy o raglenni ar gyfer y teulu cyfan. Credwyd hefyd ei fod yn beth da bod y *Tweenies* ar gael yn y Gymraeg i'r plant lleiaf. Roedd cyfresi fel *Tweenies* a *Teletubbies* yn y Gymraeg yn beth da ynghyd â rhaglenni fel *Ffeil*, a hefyd *Planed Plant*.

Digidol

Cyffyrddwyd â'r pwnc teledu digidol. Soniodd Huw Jones fod y byd digidol yn rhoi cyfle mawr i S4C gael sianel ei hunain yn hytrach na gorfod rhannu sianel gyda Channel 4 fel sydd yn digwydd ar analog. Roedd y problemau ar amserlen rhaglenni S4C orfod ceisio gwasgu goreuon Channel 4 i fewn tra'n darparu rhaglenni Cymraeg ar yr oriau brig yn ddi ben draw. Er enghraifft, a ddylai S4C darlledu'r 'Derby' neu Eisteddfod yr Urdd. Yn fwy diweddar roedd Channel 4 yn darlledu'r criced ac wrth gwrs roedd pobl yng Nghymru hefyd eisiau ei weld. O bryd i'w gilydd roedd hyn yn gor redeg a roedd yna gwestiwn wythnos ynghynt

ynghlŷn ag a ddylid rhedeg ar draws *Pobol y Cwm* neu beidio? Roedd sianel ddigidol felly yn ateb i hyn. Er hynny, nid oedd S4C wedi derbyn mwy o gyllid gan y llywodraeth i lenwi'r oriau yna gyda rhaglenni newydd bob awr o'r dydd fel y byddai S4C yn dymuno. Felly, roedd yna dipyn go lew o ail ddangos ar y sianel ddigidol er bod gwerth i hynny hefyd lle'r oedd pobl am gael ail gyfle i weld y rhaglenni gorau. Cyfeiriwyd hefyd am y ffaith bod blwch digidol ar gael yn awr am £100 oedd yn caniatáu i bobl gael S4C digidol a rhyw deuddeg sianel arall hefyd. Erbyn hyn roedd rhyw 43% o gartrefi Cymru, ac ychydig bach mwy na hynny o gartrefi oedd yn siarad Cymraeg, yn derbyn teledu digidol. Roedd hyn yn eithaf tebyg i'r nifer ar draws Prydain.

Efallai'r adegau pan yr oedd S4C Digidol ar ei gorau oedd adeg yr Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol – pan oedd modd er enghraifft ddarlledu o'r Pafiliwn yr Eisteddfod trwy gydol y diwrnod. Roedd gwasanaeth cynhwysfawr S4C o wyliau Cymru yn denu llawer iawn o bobl i wyllo ar ddigidol. Ar ben hyn roedd i sianel ddigidol yn rhoi cyfle i S4C gynnig rhaglenni oedd yn wreiddiol i'r gwasanaeth; cynnig y cyfle i weld rhai o'i rhaglenni gorau dros y blynyddoedd; a hefyd cynnig cyfle i weld rhaglen oedd efallai wedi'i darlledu eisoes yn ystod yr wythnos honno.

Rygbi

Mynegwyd anfodlonrwydd gan un person fod S4C yn darlledu rygbi am 5.30 ar ddydd Sadwrn a chredwyd y byddai'n well pe bai'r rygbi yn cael ei ddarlledu yn y prynhawn. Esboniodd Huw Eirug ei bod hi'n rhan o'r cytundeb gyda'r Undeb Rygbi nad oedd hawl gan unrhyw ddarlledwr ddarlledu gem yn fyw am 3 o'r gloch oherwydd effaith apêl o gêm ar deledu yn tynnu oddi wrth dorf fyddai yn mynd i weld gêm arall.

Roedd ffigyrau gwyllo *Clwb Rygbi* ers i S4C eu darlledu am 5.30 pm wedi bod yn dda iawn. Roedd pobl yn gwyllo felly, er efallai pobl nad oedd yn mynd i weld y gêm yn fyw. Awgrymwyd hefyd bod yna rai oedd wrth eu bodd yn mynd i weld gêm, ac yna dod nôl gartref a gweld gêm fyw arall ar y teledu – roedd siwr o fod nifer fawr tebyg ddim yn gallu cael digon o rygbi!

Rhaglenni Crefyddol

Holwyd os oedd gan S4C adran Grefydd, achos yr unig beth oedd yn cael ei gynnig oedd *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar nos Sul. Atebodd Huw Eirug nad oedd yna adran grefydd fel y cyfryw ond roedd gan S4C cyfres grefyddol newydd yn cychwyn diwedd mis Awst/dechrau Medi. Hefyd, darlledwyd cyfres *Llwybrau Paul* yn gynharach yn y flwyddyn. Ar ddigidol roedd *Hanfod* bob prynhawn dydd Sul, rhaglen gylchgrawn oedd hon yn trafod agweddau gwahanol o grefydd.

Rhaglenni Gwyddonol

Codwyd cwestiwn tebyg ei natur i'r uchod yn ymwneud â rhaglenni gwyddonol yn Gymraeg. Deallwyd bod y gymdeithas wyddonol genedlaethol a chymdeithas wyddonol Caerdydd wedi cysylltu droeon â S4C yn gofyn am ryw rhaglenni a naws wyddonol. Serch hyn, ers tair neu bedair blynedd nid oedd dim wedi'i weld. Holwyd a oedd hyn yn fater o ddiffyg cyllid neu adnoddau, neu ai oherwydd nad oeddynt yn boblogaidd.

Atebodd Huw Eirug taw'r her i S4C oedd ymdrin â phynciau fel gwyddoniaeth mewn modd difyr a diddorol. Roedd y Sianel wedi darlledu rhaglenni yn ddiweddar yn trafod 'asprin' a theithio i'r gofod. Ar ôl dweud hynny, ychydig iawn o gwmnïau cynhyrchu oedd yn cynnig syniadau gwyddonol. A hyd yn oed petai y nifer o syniadau yna'n cynyddu nid oedd y ffaith bod rhywbeth yn Gymraeg yn ddigonol ynddo'i hun, rhaid iddo gael ei wneud o safon cystal ag unrhyw beth arall mae pobl yn mynd i weld ar unrhyw sianel arall. Nid oedd pobl yn mynd i edrych ar rhywbeth achos ei fod yn bwnc newydd, roedd y driniaeth yn holl bwysig.

Rhaglenni ar Wledydd Tramor

Awgrymwyd bod yna le i gael rhaglenni ar wledydd eraill, yn cynnwys efallai gwledydd bach yn Ewrop a thu hwnt, gyda rhyw ddimensiwn Cymraeg iddynt, o bosib yn eu cymharu gyda'r sefyllfa yng Nghymru. Credwyd bod pobl yn anwybyddus iawn o wledydd tramor. Teimlwyd yn siwr y buasai yn bosib cael safbwynt Cymraeg a Chymreig wrth rhoi sylw i wledydd eraill ac edrych ar eu hanes, heconomi, gwleidyddiaeth a'u diwylliant.

Ymatebodd Huw Jones a Huw Eirug trwy gyfeirio at raglenni megis *Byd Pws* ac *Ewropa* yr oedd S4C wedi'u darlledu. Roedd S4C hefyd wedi gwneud rhaglenni tebyg i'r rhai a awgrymwyd uchod fan hyn a fan draw ar hyd y blynyddoedd – rhoddwyd yr esiampl o raglen a ddarlledwyd lle gwelwyd bywyd Rwsia trwy lygaid ferch ifanc. Yn ogystal, cyn bo hir iawn byddai rhaglen wedi'i phrynu o deledu Ffrainc ar hanes yr iaith Lydaweg yn cael ei darlledu, oedd yn rhaglen dda iawn o'r fath na fyddai'r un sianel arall ym Mhrydain yn ei dangos. Felly, tra'n nodi yr hyn oedd wedi'i ddweud roedd S4C yn cyffwrdd â'r meysydd hyn ond nodwyd yr hyn wedi'i ddweud.

Rhaglenni Cymraeg i Ddysgwyr

Holwyd beth fyddai ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol. Cyfeiriodd Huw Eirug at y ffaith bod y rhaglen *Yr Wythnos* yn cael ei darlledu am 2 o'r gloch bob prynhawn Sul ar hyn o bryd. Cydnabuwyd hyn a chredwyd bod y safon iaith yn dda iawn, lle'r oedd y cyflymder yn dda ac roedd yn cael ei mwynhau – er bod yr amser darlledu tipyn bach yn anodd achos iddo fod ar ôl cinio Sul.

Er hynny, credwyd bod agendor mawr yn yr hyn a ddarparir i ddysgwyr. Roedd yn anodd i fynd o'r rhaglenni ar gyfer dysgwyr i wyllo rhaglenni ar gyfer y Cymry Cymraeg rhugl. Roedd *Yr Wythnos* yn un peth ond nid oedd yna raglenni eraill, fel dramaù er enghraifft.

Soniodd Huw Eirug fod S4C wedi bod yn ystyried drama eto a roedd yn meddwl ei bod hi'n hen bryd i ddatblygu sefyllfa lle'r oedd dysgwr yn brif gymeriad a lle nad oedd yna cast rhy fawr ac ati. Yn yr hydref, byddai *Welsh in a Week* yn dod yn ôl, ac wedyn roed cyfres arall, *Cariad at Iaith*, oedd yn dangos pobl yn dysgu'r Gymraeg - ond cydnabuwyd na fyddai'r rhain yn llanw'r bwlch a gyfeiriwyd ato.

Teimlwyd pwysigrwydd teledu wrth i bobl geisio dysgu'r iaith, trwy brofiad personol lle nad oedd neb yn y teulu nac yn y lle gwaith yn siarad yr iaith. S4C a Radio Cymru oedd yr unig lefydd lle'r oedd person yn gallu clywed yr iaith tu allan i ddosbarthiadau Cymraeg. Roedd yn hanfodol, felly, bod y cyfryngau hynny ar gael i geisio datblygu'r iaith rhwng dosbarthiadau.

Gwyllo gan bobl di-Gymraeg

Soniodd aelod di-Gymraeg o'r gynulleidfa ei fod o bryd i'w gilydd yn gwyllo rhaglenni gan ddefnyddio'r is-deitlau ar y gwasanaeth 888. Roedd yn mwynhau'r rhaglenni chwaraeon a cherddoriaeth oedd yn goresgyn pob rhwystr ieithyddol yn ei dyb ef. Nid oedd yn cytuno gyda sylwadau oedd yn ymddangos yn y wasg yn cwyno am sylwebaeth Gymraeg ar chwaraeon – roedd yn beth da ei fod ar gael. Roedd fel person di-Gymraeg yn gwyllo tipyn ar S4C, roedd yn ymwybodol o nifer o bobl yn yr un sefyllfa oedd yn gwneud yr un peth, a dyna oedd ei ddiddordeb wrth ddod i'r cyfarfod hwn.

Daethpwyd â'r noson i ben gan ddiolch i'r rheiny a fynychodd am ddod a chyfeirio at apêl elusenol S4C ar gyfer Shelter Cymru. Roedd yna lyfrynnau coginio gan Dudley ar werth am £1 gyda elw yn mynd at yr apêl a byddai unrhyw gefnogaeth i'r ymgyrch i godi arian yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

CYFARFOD BUSNES – 28 MEHEFIN – Y BARRI

Sky

Adroddwyd ar ddatblygiadau'r trafodaethau gyda Sky ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Soniwyd bod Sky wedi ymateb trwy wrthod cais S4C. Roedd nifer o bosibiliadau oedd yn ymwneud â safle S4C ar loeren yn dal i gael eu trafod.

Y Cadeirydd

Adroddodd Janet Lewis-Jones ar y diweddaraf parthed iechyd y Cadeirydd. Roedd y driniaeth a gafodd wedi bod yn llwyddiannus ond roedd rhaid iddi nawr ddilyn cwrs o chemotherapy. Soniodd y byddai Elan Closs Stephens yn gweld arbenigwyr nes ymlaen y diwrnod hwnnw i drafod y driniaeth o'i blaen am y misoedd nesaf. Roedd y Cadeirydd yn llawn bwriadu i barhau i ymgymryd â nifer o weithgareddau yn ystod y cyfnod ond roedd yn anodd dweud ar hyn o bryd pa rai

Eisteddfod yr Urdd

O ran gweithgareddau S4C ar y maes, nodwyd y bu yna fwrlwm mawr ym mhabell S4C trwy gydol yr wythnos ac y bu'n llwyddiannus iawn. Roedd yna deimlad mai i blant bach dyma oedd canol y digwyddiadau.

Diwrnod i Ffwrdd y Tîm Rheoli/Comisiynwyr

Adroddwyd bod y diwrnod yn un a ystyriwyd i fod yn fuddiol gan bawb oedd yn bresennol. Roedd y gwaith o ganolbwyntio'n fwy fwy ar raglenni 'rhaid gweld' yn parhau. Roedd yn fwriad cynnal diwrnod tebyg ym mis Medi cyn adrodd yn ôl at yr Awdurdod. Y dasg bryd hynny byddai tynnu hyn oll ynghyd gyda'r cynllun corfforaethol a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ystyried blaenoriaethau ac ati. Nodwyd bod y cyfarfod hyn yn gam pellach yn y broses a gychwynwyd o ddiwrnod i ffwrdd yr Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn ac edrychwyd ymlaen at dderbyn yr adroddiad pellach nes ymlaen yn y flwyddyn.

Gwobrau BAFTA Cymru

Nododd yr Aelodau â phleser mawr llwyddiant ysgubol S4C yng ngwobrau BAFTA Cymru eleni a llongyfarchwyd pawb yn gysylltiedig â'r rhaglenni buddugol.

Ffigurau Gwyllo

Tynnwyd sylw at y trafodaethau oedd yn parhau gyda BARB gyda'r bwriad o symud at system mesur cynulleidfa dibynadwy. Roedd rhai syniadau penodol wedi eu crybwyll er mwyn lleihau'r anghysondeb yn y ffigurau roedd S4C yn derbyn ar hyn o bryd. Roedd y system yn wynebu rhai problemau ar lefel Brydeinig ond oherwydd maint gymharol fechan cynulleidfa darged S4C roedd y problemau hyn yn achosi mwy o broblem yn achos S4C.

Wrth nodi'r sefyllfa, awgrymwyd bod yna le i ofyn os oedd hi'n werth talu am wasanaeth mor gostus os na ellid dibynnu ar yr wybodaeth oedd yn cael ei ddarparu. Efallai y byddai'n werth edrych yn ehangach ar systemau eraill oedd ar gael. Cytunwyd y dylid dod yn ôl i'r mater ym mis Medi ac ystyried a oedd S4C yn credu'r ffigurau diweddaraf ar gael o BARB. Os nad oedd, byddai angen ystyried ymhellach beth ddylai'r Sianel wneud ynghylch y sefyllfa, gan gadw mewn cof pwysigrwydd ffigurau BARB i S4C Masnachol o'r safbwynt hysbysebu a nawdd.

Cyflwyniad i Dysg

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gyflwyniad a roddodd yn ystod cynhadledd dau ddiwrnod ar hybu addysg gydol oes. Thema'r cyflwyniad oedd dymuniad S4C i ychwanegu gwerth at fywyd yng Nghymru o fewn ei remit ddarlledu a'r modd y gellid defnyddio'r deunydd oedd ar gael gan y Sianel yn ehangach at bwrpas addysg.

Y Mesur Cyfathrebu

Roedd S4C eisoes wedi gyrru tystiolaeth at y Cydbwyllgor Archwilio ar y Mesur Cyfathrebu. Y cam nesaf oedd i ymateb i'r DCMS ar y Mesur erbyn 10 Awst. Roedd yna gymalau yn ymwneud â, ac yn effeithio ar, S4C oedd dal heb eu drafftio ond roedd S4C yn trafod cynnwys y rhain gyda'r Adran. Rhai o'r prif faterion byddai angen rhoi sylw iddynt oedd:

- yr angen i ehangu pwerau'r Awdurdod i sefydlu gwasanaethau newydd. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen cael trwydded ITC/OFCOM ar gyfer S4C2 fel ag yr oedd ar hyn o bryd.
- sicrhau bod unrhyw newidiadau i bwerau masnachol S4C yn adlewyrchu amgylchiadau arbennig S4C.
- ail-gyflwyno'r dadleuon dros gael unrhyw adolygiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol pob deng mlynedd yn hytrach na phob pum mlynedd
- roedd angen parhau i drafod gyda'r DCMS newid yn y fformiwla ariannu o ran cynnydd yn y 'baseline'. (Nododd yr Aelodau taw'r gobaith oedd y byddai gwybodaeth ar gael erbyn y cyfarfod nesaf ynghlŷn â phenderfyniadau Canghellor y Trysorlys parthed y rownd gwariant cyhoeddus.)

- datganiad polisi rhaglenni. Roedd angen trafodaeth bellach ynglŷn â'r angen i S4C gyhoeddi datganiad o'r fath pan roedd gwybodaeth debyg yn ymddangos yn ei Adroddiad Blynyddol.

Nodwyd y byddai yna gyfle pellach yn y cyfarfod nesaf i'r Aelodau gynnig sylwadau ar yr ymateb y dylid gyrru at y DCMS. Wedyn byddai'r Mesur gerbron y Senedd am ryw flwyddyn.

Cydymffurfiaeth

Nwci –

- Ystyriwyd mater a gyfeiriwyd gan y Grwp Cydymffurfiaeth oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a oedd gyfres o'r fath yn dderbyniol i ddarllledwr cyhoeddus ei ddarlledu a hefyd a oedd yn is-raddio menywod? Gwyliwyd tri chlip wedi'u dethol o un rhaglen yn y gyfres.
- Cytunwyd:** Er mwyn cyrraedd at benderfyniad teg a chyflawn, y dylid gohirio'r drafodaeth ar y mater hwn tan y cyfarfod nesaf er mwyn i'r Aelodau, yn y cyfamser, fedru gwylio'r gyfres yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal, pe bai modd, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gellid gosod rhyw fath o gyd-destun y gallai'r Aelodau fesur y gyfres *Nwci* yn ei erbyn (e.e. rhaglenni o natur debyg yr hyn roedd sianelau darlledu cyhoeddus eraill yn eu darlledu). Hefyd, dylid amgáu ymhlith y papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf, copi o'r canllawiau cydymffurfiaeth perthnasol.

Ansawdd Iaith Cyflwynwyr Rhaglenni Ffeithiol

- Ystyriodd yr Awdurdod gwaith ymchwil yr Uned Fonitro ar safon iaith cyflwynwyr a hefyd papur oedd yn gwneud rhai argymhellion ynglŷn â'r ffordd ymlaen yn sgil canlyniadau'r ymchwil. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi manylder y gwaith ymchwil ac yn falch iawn i nodi'r dystiolaeth bositif roedd yn cynnig o safbwynt safon yr iaith a ddefnyddir mewn ystod o raglenni ffeithiol oedd wedi bod yn destun monitro manwl. Roedd yr Aelodau hefyd yn cyd-fynd gyda thrywydd yr argymhellion ynglŷn â'r camau nesaf. Er hynny, nodwyd mai cyflwynwyr ifanc oedd yn bennaf ar fai am y mwyafrif o'r gwallau a theimlwyd bod hyn yn fater y dylai'r swyddogion dalu sylw iddo. Yn ogystal, gwahaniaethwyd rhwng ystyriaethau tafodiaith a threiglo. Lleisiwyd y farn nad oedd yna le ar gyfer unrhyw gamdreiglo a bod hyn yn rhywbeth y dylid mynd ar ei ôl. Roedd hi'n bwysig i bwysleisio i'r cwmnïau cynhyrchu fod yna gyfrifoldeb arnynt i sicrhau'r defnydd o Gymraeg cywir. Er hynny, credwyd hefyd y dylid sicrhau nid oedd y pwyslais ar yr angen am Gymraeg coeth yn cael ei ddehongli fel y peth pwysicaf oll ar draul creadigrwydd. Roedd hefyd angen cadw mewn cof bod yna le i ddatblygu staff ac nid oedd disgwyl i gyflwynwyr fod yn berffaith ym mhob agwedd o'i gwaith ar y cychwyn oll.
- Cytunwyd:** Tra roedd y gwaith ymchwil yn cynnig tystiolaeth galonogol o ran cywirdeb iaith cyflwynwyr, roedd yna le ar gyfer gwelliant. Ar sail sylwadau ac arweiniad Aelodau'r Awdurdod felly, dylai'r Tîm Rheoli/Panel Darlledu ystyried y camau oedd angen eu cymryd a chyfleu y rhain i'r cwmnïau cynhyrchu.

Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod ddau gais am nawdd a thrafodwyd yr hyn a argymhellwyd yn yr adroddiad wedi'i gylchredeg.

Cytunwyd:

- (a) Ysgol Gerdd Geiman – Y dylid rhoi nawdd o £2,000 i'r ysgol hon ym Mhatagonia, Argentina, mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith fod S4C wedi elwa o gydweithrediad ac ewylllys da pobl y wlad yn ystod cynhyrchiad nifer o gyfresi a rhaglenni wedi'u ffilmio yno.
- (b) Gwobr Archesgob Cymru am Gerddoriaeth Eglwysig - Y dylid gwrthod y cais am nawdd gan y byddai hyn yn ymestyn yr egwyddorion tu ôl i'r polisi nawdd yn rhy eang.

Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd neu nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Ariannol
- Cyllideb - Cynllun Deng Mlynedd
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Y Wifren Gwylwyr – Ad-leoli
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2002
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rhaglenni